# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-12-07)

**Dyddiad: 6 Rhagfyr 2007**
**Amser: 9:30 - 10:30**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Andrew RT Davies, Canol De Caerdydd
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Alun Ffred Jones, Arfon
Lesley Griffiths, Wrecsam
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Karen Sinclair, De Clwyd
Leanne Wood, Canol De Caerdydd

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn Bresennol

George Muir, Cyfarwyddwr Cyffredinol Cymdeithas y Cwmnïau Trenau

David Brown, Cadeirydd Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nododd y Cadeirydd fod Brynle Williams wedi ymddiheuro ac y byddai Andrew RT Davies yn dirprwyo ar ei ran.

### Eitem 2: Ymchwiliad i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru
### Papurau: SC(3)-11-07 (p.1) a (p.2)

2.1 Croesawodd y Cadeirydd George Muir o'r Gymdeithas Cwmnïau Trenau a David Brown o Gydffederasiwn Cludiant Teithwyr i'r cyfarfod gan eu gwahodd i gyflwyno'u sylwadau ysgrifenedig. Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodau.

2.2 Cytunodd David Brown i ddarparu rhagor o fanylion i ddangos i ba raddau roedd awdurdodau lleol a chyflogwyr mawr yn hyrwyddo cynlluniau teithio unigol ymhlith gweithwyr ac unigolion yng Nghymru.

2.3 Cytunodd George Muir i holi a oedd rhai o'r 1,300 o drenau newydd a archebwyd gan Lywodraeth y DU wedi'u bwriadu ar gyfer Cymru.